Cyngor Sir Fynwy

Cynllun Datblygu Lleol Newydd Cyngor Sir Fynwy 2018-2033

ARCHWILIAD

Sesiwn Gwrandawiad Pwyntiau Gweithredu 8 - Seilwaith, Trafnidiaeth, Mwynau a Gwastraff

Dydd Mercher 30ain Medi 2026

Cyf.	Cam Gweithredu	Dyddiad Cyflawni	Ymateb y Cyngor
AP8/1	Y Cyngor i weithredu'r diwygiadau a nodir yn ED29 'Atodlen y Newidiadau Arfaethedig CDLIN Adneuo (Awst 2026)' oni bai eu bod wedi'u diwygio fel arall gan Bwyntiau Gweithredu penodol		
AP8/2	Cyngor i ystyried teitl amgen ar gyfer Polisi ST1 i ddisgrifio'r bwriad polisi.	16.10.2026	Cynigir diwygio teitl Polisi ST1 – Cynigion Trafnidiaeth Gynaliadwy i '*Trafnidiaeth Gynaliadwy a Datblygiadau Newydd*', i adlewyrchu diben a chwmpas y polisi yn fwy cywir. Mae'r diwygiad wedi'i gynnwys yn yr Atodlen Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd.

AP8/3	Polisi ST1, Y Cyngor i adolygu geiriad y cyfeiriad at 'Os yw lleoliad gwledig yn hanfodol...'.	16.10.2026	Cynigir diwygio geiriad brawddeg gyntaf ail baragraff Polisi ST1 i ddileu'r cyfeiriad at '*Os yw lleoliad gwledig yn hanfodol ar gyfer y datblygiad arfaethedig' a disodli* gyda '*Dylai cynigion datblygu mewn ardaloedd gwledig ystyried mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus a, lle bo angen, ymgorffori cysylltiadau priodol.'* Bydd y frawddeg yn darllen fel a ganlyn: '*Dylai cynigion datblygu mewn ardaloedd gwledig ystyried mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus a, lle bo angen, ymgorffori cysylltiadau priodol*' Mae'r diwygiad wedi'i gynnwys yn yr Atodlen Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd.
AP8/4	Polisi ST1, paragraff olaf, y Cyngor i adolygu'r geiriad ynghylch 'traffig ffyrdd ychwanegol sylweddol' yng ngoleuni brawddeg olaf paragraff 19.3.1 y CDLlN.	16.10.2026	Cynigir diwygio'r geiriad ym mharagraff olaf Polisi ST1 i ddileu'r cyfeiriad at '*Datblygiadau sy'n debygol o greu twf traffig ffyrdd ychwanegol sylweddol...'* a'i ddisodli gyda '*Ni chaniateir cynigion datblygu sy'n debygol o gynhyrchu twf traffig ychwanegol annerbyniol, neu effeithio'n andwyol ar weithrediad diogel ac effeithlon y system briffyrdd...*' Bydd y frawddeg yn darllen fel a ganlyn: '*Ni chaniateir cynigion datblygu sy'n debygol o gynhyrchu twf traffig ychwanegol annerbyniol, neu effeithio'n andwyol ar weithrediad diogel ac effeithlon y system briffyrdd.*' Mae'r diwygiad wedi'i gynnwys yn yr Atodlen Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd.

AP8/5	Polisi ST3, Y Cyngor i adolygu geiriad yr ail baragraff, brawddeg gyntaf, 'bydd yn cael ei ystyried yn ffafriol'; ac 'yn ddarostyngedig i ystyriaethau cynllunio manwl' er eglurder.	16.10.2026	Cynigir diwygio brawddeg gyntaf a'r ail baragraff cyntaf o Bolisi ST3 – Cludo nwyddau drwy ddisodli '*yn cael ei ystyried yn ffafriol*' gyda '*yn cael ei gefnogi*' er eglurder. Mae'r cyfeiriad at '*yn amodol ar ystyriaethau cynllunio manwl*' yn cael ei ystyried yn briodol i wneud yn glir y bydd cynigion yn destun asesiad yn erbyn yr holl ystyriaethau cynllunio perthnasol a pholisïau cynllun datblygu. Bydd Polisi ST3 yn darllen fel a ganlyn: '*Er mwyn lleihau neu atal traffig cludo nwyddau trwm ar y ffordd, dylid archwilio cyfleoedd i ddatblygu pwyntiau trosglwyddo nwyddau rhwng trafnidiaeth gynaliadwy ffordd, rheilffordd a milltir olaf a byddant yn cael eu cefnogi, yn amodol ar ystyriaethau cynllunio manwl.* *Bydd datblygu cyfleusterau ar gyfer symud cludo nwyddau ar y rheilffordd yn cael ei gefnogi, yn amodol ar ystyriaethau cynllunio manwl.* *Ni chaniateir cynigion a fyddai'n amharu ar weithrediad safleoedd a chyfleusterau cludo nwyddau, neu'n arwain at eu colli, oni bai bod y cyfleuster wedi cau neu ar fin cau, a gellir dangos nad oes gobaith realistig y bydd yn ailddechrau gweithredu, gan ystyried ei hyfywedd posibl yn yr hirdymor.*' Mae'r diwygiadau wedi'u cynnwys yn yr Atodlen Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd.

AP8/6	Y Cyngor i ddarparu Map Cynigion diwygiedig sy'n dangos symbolau sy'n cynrychioli lleoliadau eang cynlluniau trafnidiaeth h) i p) ym Mholisi ST5.	16.10.2026	Map Cynigion a Map Mewnosod diwygiedig wedi'u cyflwyno i fynd i'r afael ag AP8.6 – gweler y dogfennau AP8.6 ac AP10.9 (Map Cynigion) a'r dogfennau AP8.6 ac AP10.9 (Mapiau Mewnosod). Nodwch fod y mapiau diwygiedig yn dangos y newidiadau ar gyfer AP8.6 ac AP10.9 i fod yn gyflawn. Mae'r diwygiadau wedi'u cynnwys yn yr Atodlen Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd.
AP8/7	Y Cyngor i ddarparu copi o adroddiad monitro Ionawr 2026 gan Weithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru.	16.10.2026	Cyflwynwyd y ddogfen AP8.7 Adroddiad Blynyddol Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru (2024 a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2026) er gwybodaeth.
AP8/8	Polisi S16, 2ail Dangosydd Monitro 'safleoedd gwarchodedig' i'w disodli gan 'Ardaloedd Diogelu Mwynau'.		Mae'r ail ddangosydd sy'n gysylltiedig â Pholisi Strategol S16 – Rheoli Mwynau Cynaliadwy wedi'i ddiwygio i ddarllen fel a ganlyn: *'Dangosydd Lleol: Nifer y datblygiadau parhaol, nad ydynt yn ddatblygiadau mwynau, a awdurdodwyd o fewn Ardaloedd Diogelu Mwynau, nad ydynt yn unol â Pholisi M2.'* Mae'r diwygiad wedi'i gynnwys yn yr Atodlen Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd.
AP8/9	Polisi S16, 2il Ddangosydd Monitro', y Cyngor i adolygu'r geiriad targed er eglurder a chysondeb â Pholisi M2.	16.10.2026	Mae'r targed sy'n gysylltiedig â'r ail ddangosydd sy'n ymwneud â Pholisi Strategol S16 – Rheoli Mwynau Cynaliadwy wedi'i ddiwygio i ddarllen fel a ganlyn: *'Targed: Mae pob cais yn unol â gofynion Polisi M2 – Ardaloedd Diogelu Mwynau.'* Mae'r diwygiad wedi'i gynnwys yn yr Atodlen Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd.

AP8/10	Paragraff 22.2.1, brawddeg olaf, hepgorer y geiriau 'neu ddefnydd cerbydau trwm'.		Mae brawddeg olaf paragraff 22.2.1 wedi'i diwygio i hepgor y geiriau '*neu ddefnydd cerbydau trwm.'* Bydd y frawddeg yn darllen fel a ganlyn: *'Mae Polisi M1 yn galluogi hyn i ddigwydd, er y bydd angen gofal i sicrhau bod cynigion ar raddfa fach, nad ydynt yn cael effaith niweidiol ar gefn gwlad ac nad ydynt yn cynnwys defnydd ffrwydro helaeth.'* Mae'r diwygiad wedi'i gynnwys yn yr Atodlen Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd.
AP8/11	Y Cyngor i adolygu Polisi M2, maen prawf a) i) mewn perthynas â 'byddai'n achosi niwed annerbyniol i fuddiannau ecolegol neu fuddiannau eraill' er eglurder.	16.10.2026	Mae maen prawf a) i) o Bolisi M2 – Ardaloedd Diogelu Mwynau, wedi'i ddiwygio i hepgor y geiriau '*neu y byddai'n achosi niwed annerbyniol i ddiddordebau ecolegol neu ddiddordebau eraill*'. Bydd maen prawf a) i) yn darllen fel a ganlyn: *'a) Ni fydd cynigion ar gyfer defnyddiau datblygu parhaol o fewn ardaloedd diogelu mwynau a nodwyd yn cael eu cymeradwyo oni bai:* i) *Yr ymchwiliwyd i botensial yr ardal ar gyfer echdynnu mwynau, a dangoswyd na fyddai echdynnu o'r fath yn fasnachol hyfyw nawr nac yn y dyfodol; neu'* Mae'r diwygiad wedi'i gynnwys yn yr Atodlen Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd.